| **POLISI A GWEITHDREFN CAMYMDDYGIAD RHYWIOL A THRAIS: MYFYRWYR A STAFF** | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Awdur** | Joy Morton, Cyfreithiwr y Brifysgol | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Gweithredwyd Gan:** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr/Adnoddau Dynol (AD) | | |
| **Cyfeirnod y Polisi a Gweithdrefn:** | POPRSPSA1920013 | | |
| **Polisi a Ddisodlir:** | Amherthnasol | | |
| **Fersiwn Rhif:** | 2 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Bwrdd Academaidd<br>Bwrdd yr Is-ganghellor<br>Pwyllgor Adnoddau Dynol |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Tachwedd 2021 | **Rhif cofnod:** | |
| **Statws:** | Wedi'i gymeradwyo | **Dyddiad Gweithredu:** | Tachwedd 2021 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2024 |

1.1 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod yr holl fyfyrwyr a staff ym Mhrifysgol Wrecsam ("y Brifysgol") yn cael eu trin gydag urddas a pharch, ac yn trin eraill yn yr un modd, ac yn rhydd rhag camymddygiad rhywiol a thrais. Nod y Brifysgol yw darparu amgylchedd diogel a chefnogol i fyfyrwyr gael astudio a rhyngweithio gyda myfyrwyr eraill, staff ac ymwelwyr, a lle gall staff weithio'n rhydd rhag unrhyw gamymddygiad rhywiol a thrais. Mae camymddygiad rhywiol a thrais yn cyfeirio at sbectrwm eang o ymddygiadau na ellir eu gwahanu oddi wrth fathau eraill o drais ar sail rhywedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, trais gan bartner agos neu gam-drin domestig, ymddygiad sy'n rheoli a/neu'n cymell, a stelcio.

1.2 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall unrhyw unigolyn, waeth beth fo'u rhywedd, ddioddef camymddygiad rhywiol a thrais. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo diwylliant lle na oddefir unrhyw achosion o gamymddygiad rhywiol a thrais, a bydd achosion yn cael eu hymchwilio i sicrhau bod amgylchedd astudio a gweithio diogel yn cael ei gynnal.

1.3 Mae'r Brifysgol yn cymryd honiadau o gamymddygiad rhywiol a thrais o ddifrif a bydd yn mynd i'r afael â nhw yn briodol, a'u trin yn gyfrinachol lle bo'n bosibl.

1.4 Yn wahanol i honiadau o aflonyddu a bwlio, ni ddylid datrys honiadau o gamymddygiad rhywiol a thrais yn anffurfiol a dylid eu hadrodd i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol yn y lle cyntaf.

1.5 Mae'r Brifysgol yn anelu at gydbwyso hawliau'r person sy'n gwneud yr honiad a rhai'r person y gwneir yr honiad yn eu herbyn; rhaid i bob parti gael eu trin gydag urddas a pharch. Ni ddylai myfyriwr nac aelod o staff ddisgwyl dioddef unrhyw ddial am wneud honiad yn ddidwyll, a dylid dwyn unrhyw honiadau a/neu dystiolaeth o wrthgyhuddiad i sylw'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol ar unwaith.

1.6 Gall fod achosion lle mae rhywun yn gwneud honiad di-sail am resymau blinderus/maleisus. Dylid ymchwilio i'r achosion hyn, a delio â nhw yn deg ac yn wrthrychol dan y gweithdrefnau disgyblu

## 2 CWMPAS y POLISI

**2.1** Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau cymuned y Brifysgol ac mae'n ymwneud â chamymddygiad rhywiol gan

- **Myfyriwr yn erbyn myfyriwr neu aelod o staff;**
- **Aelod o staff yn erbyn myfyriwr neu aelod o staff;**
- **Myfyriwr neu aelod staff yn erbyn trydydd parti**

Mae hefyd yn ymwneud â chamymddygiad rhywiol all ddigwydd y tu allan i eiddo neu oriau'r Brifysgol e.e. digwyddiadau cymdeithasol, alldeithiau neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Polisi hefyd yn cyfeirio at bob achos o gamymddygiad rhywiol a thrais yn ogystal â cham-drin domestig ac ymddygiad sy'n rheoli neu'n cymell, cyfranogaeth, dialedd, adrodd blinderus, ac adrodd maleisus fel y diffinnir yn **Adran 3.**

2.2 Bydd gan yr holl fyfyrwyr ac aelodau o staff sydd wedi dioddef Camymddygiad Rhywiol a Thrais fynediad cyfartal at gymorth arbenigol mewnol ac allanol (e.e. Argyfwng Trais) waeth pryd y digwyddodd y profiadau.

2.3 Mae'r gweithdrefnau ynghlwm â'r Polisi hwn yn ymwneud yn benodol â'r profiadau hynny, sydd wedi digwydd yn ystod astudio neu waith yn y Brifysgol, lle mae'r Parti sy'n Ymateb yn fyfyriwr neu aelod o staff yn y Brifysgol. Nid yw'r Polisi wedi'i gyfyngu i ddigwyddiadau sy'n digwydd ar safle'r Brifysgol, gan y gallai digwyddiadau fod wedi digwydd oddi ar y safle.

2.4 Os bydd unigolyn sydd â chysylltiad â pharti sy'n Adrodd yn gwneud datgeliad, dylid eu cynghori i annog y parti sy'n Adrodd i wneud datgeliad yn uniongyrchol drwy'r polisi hwn.

2.5 Mae Camymddygiad Rhywiol a Thrais yn cynnwys sbectrwm eang o ymddygiad. Ceir enghreifftiau o'r mathau o ymddygiad a fydd yn torri'r Polisi hwn isod. Bydd adroddiadau o ymddygiad o'r fath yn cael eu hystyried gan y Brifysgol dan ei gweithdrefn cwynion mewnol a lle bo'n briodol ei Gweithdrefn Ddisgyblu. Pan fydd y Parti sy'n Ymateb yn fyfyriwr bydd y Polisi a Gweithdrefn Camymddygiad Rhywiol a Thrais: Myfyrwyr yn berthnasol. Pan fydd y Parti sy'n Ymateb yn aelod o staff bydd y weithdrefn ar gyfer rheoli datgeliadau neu adroddiadau yn cynnwys honiadau o gamymddygiad rhywiol a thrais gan staff, Polisi Urddas yn y Gwaith i staff, a lle bo'n briodol, Gweithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol yn berthnasol. Bydd y Polisi a/neu'r weithdrefn briodol i'w dilyn yn cael eu pennu yn y Cyfarfod Adolygu Cychwynnol (gweler y weithdrefn isod).

2.6 Gall rhai digwyddiadau o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais fod yn drosedd hefyd dan gyfraith Cymru a Lloegr. Bydd digwyddiadau o'r fath yn destun gweithdrefnau troseddol, gweithdrefnau disgyblu mewnol, neu, mewn rhai achosion, gweithdrefnau troseddol a mewnol.

2.7 Ceir rhestr o ddiffiniadau isod i egluro union gwmpas y Polisi.

## 3 Diffiniadau a Therminoleg

3.1 Mae'r diffiniadau isod wedi cael eu gwahanu yn esboniadau o'r mathau o ymddygiad a gynhwysir yn y Polisi hwn, sy'n cyfrif fel torri amodau'r Polisi ac yn eglurhad o'r derminoleg a ddefnyddir o fewn y Polisi hwn.

**Mathau o Ymddygiad**

3.2 Diffinnir **Camymddygiad Rhywiol a Thrais** fel unrhyw ymddygiad digroeso o natur rywiol sy'n digwydd wyneb yn wyneb neu drwy lythyr, ffôn, neges destun, e-bost neu gyfrwng electronig a/neu gymdeithasol arall ac yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r, ymddygiad canlynol:

3.2.1 Cymryd rhan, neu geisio cymryd rhan mewn gweithred rywiol gydag unigolyn arall heb gydsyniad;

3.2.2 Cyffwrdd â pherson arall mewn modd rhywiol heb eu caniatâd;

3.2.3 Ymddygiad o natur rywiol sy'n creu (neu a allai greu) amgylchedd brawychus, gelyniaethus, diraddiol, sy'n codi cywilydd, neu sarhaus i eraill yn cynnwys gwneud sylwadau digroeso o natur rywiol (yn cynnwys ar unrhyw luniau/sylwadau ar-lein drwy'r cyfryngau cymdeithasol);

3.2.4 Dangos organau rhyw i berson arall mewn modd amhriodol;

3.2.5 Recordio a/neu rannu lluniau neu recordiadau personol o berson arall heb eu cydsyniad; a

3.2.6 Threfnu neu gymryd rhan mewn digwyddiadau y gellid ystyried yn rhesymol eu bod yn diraddio a chodi cywilydd ar y rheiny sydd wedi dioddef camymddygiad rhywiol, er enghraifft gweithgareddau neu ddigwyddiadau cymdeithasol â thema amhriodol.

3.3 **Diffinnir trais domestig ac ymddygiad sy'n rheoli neu'n cymell** fel unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli neu'n cymell, ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin rhwng y rheiny sy'n bartneriaid rhywiol, neu wedi bod yn bartneriaid rhywiol, neu aelodau'r teulu, waeth beth fo'u rhywedd neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, cam-drin seicolegol, corfforol, ariannol a/neu emosiynol.

3.4 **Cyfranogaeth** yw unrhyw weithred sy'n helpu, hyrwyddo, neu annog yn fwriadol unrhyw ffurf ar Gamymddygiad Rhywiol a Thrais gan unigolyn arall.

3.5 Gall **dialedd** fod yn unrhyw eiriau neu weithredoedd, yn cynnwys brawychu, bygythiadau, neu orfodi, mewn ymateb i ddatgeliadau neu adroddiadau a wneir dan y Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais, gan unrhyw unigolyn yn cynnwys y Parti sy'n Ymateb a'r Parti sy'n Adrodd, yn ogystal â thystion, ffrindiau, a pherthnasau.

3.6 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod yna fathau eraill posibl o ymddygiad a fydd yn torri amodau'r Polisi hwn ac a fydd o ganlyniad angen eu hystyried dan y Polisi a Gweithdrefn Urddas yn y Gwaith perthnasol a/neu lle bo'n briodol y weithdrefn ddisgyblu ar gyfer staff a'r Weithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Myfyrwyr, er mae amlder a thebygolrwydd tor-amodau o'r fath yn debygol o fod yn isel:

3.6.1 Mae **adrodd blinderus** yn cynnwys creu adroddiad/au di-alw-amdanynt dan y Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais.

3.6.2 **Cais blinderus** i wrthod derbyn unrhyw benderfyniadau rhesymol sy'n codi o weithredu'r gweithdrefnau ynghlwm â'r Polisi hwn.

3.6.3 Mae **adrodd maleisus** yn digwydd pan mae unigolyn yn rhannu honiad o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais y mae'r unigolyn yn gwybod nad oes sail ffeithiol iddo.

3.7 Mae **datgelu** yn cynnwys unigolyn yn dewis dweud wrth unrhyw un sy'n rhan o gymuned y Brifysgol am eu profiad o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais (yn wahanol i Adrodd).

3.8 **Adrodd** yw rhannu gwybodaeth ag aelod o staff y Brifysgol ynghylch achos o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais a brofwyd gan yr unigolyn hwnnw at ddibenion cychwyn proses ymchwilio gan y Brifysgol, fel yr amlinellir yn y Polisi hwn a gweithdrefnau ategol (yn wahanol i Ddatgelu).

3.9 **Parti sy'n Adrodd** yw'r person(au) sydd wedi bod yn destun yr achos honedig o

Gamymddygiad Rhywiol a Thrais neu dor-amod arall o'r polisi.

3.10 **Parti sy'n Ymateb** yw'r person(au) y mae eu hymddygiad wedi arwain at achos honedig o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais neu dor-amod arall o'r polisi.

3.11 **Trydydd Parti** yw rhywun nad yw'n rhan o gymuned y Brifysgol h.y. ddim yn aelod o staff nac yn fyfyriwr.

3.12 **Cydsyniad** yw cytundeb drwy ddewis lle mae gan yr unigolyn y rhyddid a'r gallu i wneud y dewis hwnnw. Ni ellir tybio cydsyniad ar sail profiad rhywiol blaenorol neu gydsyniad a roddwyd o'r blaen, neu o ddiffyg cwyn, ac mae pob gweithred rywiol newydd yn mynnu ail gadarnhad o gydsyniad fel sail i berthynas rywiol iachus a pharchus. Gellir tynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg cyn neu yn ystod gweithred rywiol.

3.12.1 **Rhyddid i gydsynio**: I gydsyniad fod yn bresennol, rhaid i'r unigolyn gymryd rhan o'u gwirfodd mewn gweithred rywiol. Ni ellir tybio cydsyniad o ddiffyg gwrthwynebiad geiriol neu gorfforol. Nid yw cydsyniad yn bresennol pan mae cymryd rhan gan gyfranogwr anfodlon yn ganlyniad gorfodi, defnyddio grym, bygwth, brawychu neu gamddefnyddio pŵer.

3.12.2 Mae **Cymell neu Ddefnyddio Grym** yn cynnwys unrhyw niwed corfforol neu emosiynol neu fygwth achosi niwed o'r fath a fyddai'n gosod yn rhesymol unigolyn yn ofni niwed nawr neu yn y dyfodol, a chanlyniad hynny fyddai'r unigolyn yn teimlo dan orfod i gymryd rhan mewn gweithred rywiol.

3.12.3 **Gallu i gydsynio**: Ni ellir rhoi cydsyniad rhydd os nad oes gan yr unigolyn y gallu i gydsynio. Mae unigolyn yn analluog pan mae'n cysgu, anymwybodol, lled-ymwybodol, neu mewn cyflwr o ymwybyddiaeth ysbeidiol, neu unrhyw gyflwr arall o anymwybyddiaeth y gallai gweithred rywiol fod yn digwydd. Gall analluogrwydd ddigwydd oherwydd anabledd meddyliol neu ddatblygiadol, neu o ganlyniad i ddefnyddio alcohol neu gyffuriau.

3.12.4 **Defnyddio Alcohol a/neu Gyffuriau:** Dylid gwerthuso analluogrwydd yn sgil yfed alcohol neu gymryd cyffuriau ar sail sut mae'r alcohol/cyffuriau wedi effeithio'r unigolyn; gall arwyddion o analluogrwydd gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, un neu fwy o'r canlynol: siarad yn aneglur, ansad ar eu traed, llygaid gwaetgoch, canhwyllau llygaid llydan agored, ymddygiad anghyffredin, llewygu, diffyg rheolaeth lawn o symudiadau corfforol, diffyg ymwybyddiaeth o amgylchiadau neu gyffiniau, a/neu analluogrwydd i gyfathrebu'n effeithiol. Nid yw meddwdod byth yn esgus dros gyflawni gweithred o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais, neu fethu â chael cydsyniad. Os oes unrhyw amheuaeth o ran lefel neu gwmpas eich analluogrwydd eich hun neu'r unigolyn arall, y peth callaf i'w wneud yw peidio â chymryd rhan mewn gweithred rywiol.

3.13 Bydd **cyfrinachedd** yn cael ei gynnal, lle bo'n bosib, drwy'r prosesau Datgelu, Adrodd ac ymchwilio fel cydnabyddiaeth o natur sensitif materion yn ymwneud â Chamymddygiad Rhywiol a Thrais. O ganlyniad, dim ond gydag unigolion/endidau perthnasol (a all fod yn aelodau o'r Brifysgol neu'n aelodau allanol, e.e. cwnselwyr mewnol, tystion, arbenigwyr allanol o asiantaethau arbenigol megis Argyfwng Trais, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol neu'r Heddlu) y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu fel rheol, gyda chytundeb y Parti sy'n Adrodd. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl, a gall fod dan rwymedigaeth, i rannu gwybodaeth mewn amgylchiadau arbennig lle mae datgeliad o'r fath yn angenrheidiol i amddiffyn unrhyw unigolyn neu gymuned ehangach y Brifysgol rhag niwed neu atal trosedd rhag digwydd. Rhaid i bob unigolyn sydd ynghlwm ag unrhyw broses dan y Polisi hwn gadw gwybodaeth a ddatgelir iddynt fel rhan o'r broses yn gyfrinachol. Bydd unrhyw ddatgeliad anawdurdodedig o wybodaeth gyfrinachol yn cael ei ystyried yn dor-amod o'r Polisi a bydd yn cael ei drin yn unol â hynny. Drwy gydol yr holl weithdrefnau, bydd y Brifysgol yn gweithredu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

## 4 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

4.1 Gall unrhyw unigolyn, waeth beth fo'u rhyw, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws perthynas, oedran, anabledd, ffydd, ethnigrwydd, cenedligrwydd a statws economaidd, ddioddef Camymddygiad Rhywiol a Thrais. Caiff merched, aelodau o'r gymuned LHDT+, ac unigolion ag anableddau eu heffeithio'n anghymesur gan brofiadau o drais rhywiol. Gall profiadau o gamymddygiad rhywiol a thrais gydblethu â ffurfiau eraill ar aflonyddu a gwahaniaethu. Mae gan y Brifysgol Bolisi Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio (Myfyrwyr) a Pholisi Urddas yn y Gwaith (Staff) sy'n mynd i'r afael â ffurfiau eraill ar aflonyddu, bwlio a gwahaniaethu.

## 5 Cyfrifoldebau

### 5.1 Arweinwyr a Rheolwyr Llinell

Mae gan bob arweinydd a rheolwr llinell gyfrifoldeb i ymgyfarwyddo eu hunain â'r polisi hwn, a gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw camymddygiad rhywiol yn digwydd, yn enwedig yn yr ardaloedd gwaith maen nhw'n gyfrifol amdanynt.

Gall fod yn anodd i arweinwyr a rheolwyr llinell adnabod Camymddygiad Rhywiol, yn enwedig gan na all yr hyn sy'n digwydd fod yn amlwg iddyn nhw neu gydweithwyr eraill. Efallai bod yr unigolyn sy'n destun ymddygiadau amhriodol fod yn rhy ofn dweud wrth rywun. Efallai y bydd yr ymddygiadau amhriodol yn cael eu gwneud mewn ffordd gynnil neu efallai bod yr unigolyn yn meddwl eu bod yn rhan o 'ddiwylliAnt' y gweithle, ac yn normaleiddio'r hyn maen destun iddo. Os nad yw'r unigolyn yn barod i weithredu, neu'n rhy ofn gwneud hynny, efallai bydd ffyrdd eraill o ymdrin â'r mater, a dylid trafod hyn gyda'r adran Adnoddau Dynol.

5.2 Y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gwasanaethau Gweinyddiaeth Myfyrwyr yw'r Prif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais (LSMVO) ac mae'n gyfrifol am weithredu'r gweithdrefnau sydd ynghlwm â'r Polisi hwn.

5.3 Y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol yw'r Dirprwy Brif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais (LSMVO) ac mae'n gyfrifol am weithredu'r Weithdrefn ar gyfer rheoli datgeliadau neu adroddiadau yn cynnwys honiadau o gamymddygiad rhywiol a thrais yn erbyn staff.

5.4 Bydd y gwaith o reoli'r Polisi a Gweithdrefn Camymddygiad Rhywiol a Thrais ar gyfer Myfyrwyr o ddydd i ddydd yn cael ei oruchwylio gan y Tîm Ansawdd a Rheoleiddio.

## 6 Gwybodaeth Gysylltiedig

6.1 Dylid darllen y Polisi / Gweithdrefn yma ar y cyd â Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau eraill yn cynnwys:

- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi a Gweithdrefnau Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio ar gyfer Myfyrwyr
- Polisi Diogelu
- Polisi Addasrwydd i Astudio
- Lle bo'n briodol y Weithdrefn Ddisgyblu Staff a'r Weithdrefn Ddisgyblu Myfyrwyr

**POLISI CAMYMDDYGIAD RHYWIOL A THRAIS: GWEITHDREFN**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae'r Weithdrefn hon yn amlinellu sut bydd y Brifysgol yn delio ag achosion o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais yn erbyn myfyrwyr neu aelodau o staff cymuned y Brifysgol. Mae'r weithdrefn hon yn rhan o Bolisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais y Brifysgol a dylid ei darllen ar y cyd â'r Polisi hwnnw.

**1.2 Beth i'w wneud mewn argyfwng**

**Ar y Campws**

Os ydych ar y campws, rhaid cysylltu â'r gwasanaethau brys drwy'r tîm Diogelwch, fydd yn eu tywys i'r lleoliad cywir:

Ffoniwch y tîm Diogelwch ar **07764 687909** neu **07764 07640687910.** Efallai y bydd y tîm diogelwch yn ffonio aelod staff y Brifysgol sydd ar alwad, a gellir cysylltu â'r gwasanaethau brys os oes angen.

Rhowch wybod i'r tîm Diogelwch cyn gynted ag sy'n bosibl os ydych wedi ffonio 999 o'r Brifysgol fel y gallant gynorthwyo.

**Oddi ar y Campws**

Ffoniwch 999 i siarad â'r gwasanaethau brys

**1.3 Beth i'w wneud pan nad yw'n argyfwng**

Lle nad oes perygl enbyd i ddiogelwch unigolyn, neu ar ôl i unrhyw ymateb brys hanfodol gael ei roi, gall unigolyn ddewis cael cymorth meddygol, ymweld â chanolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol neu ymweld â chlinig iechyd rhywiol ar ôl y digwyddiad.

Efallai y bydd unigolyn hefyd yn dewis adrodd y digwyddiad i'r heddlu. Os byddant yn gwneud hyn, rhaid iddynt hysbysu'r Brifysgol os ydynt hefyd yn gwneud adroddiad dan y weithdrefn hon, fel bod ymchwiliad gan yr heddlu'n cael ei flaenoriaethu, gweler 3.2 isod.

**2 Cwmpas y Weithdrefn**

2.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i holl aelodau cymuned y Brifysgol ac mae'n ymwneud â chamymddygiad rhywiol gan

- **Myfyriwr yn erbyn myfyriwr neu aelod o staff;**
- **Aelod o staff yn erbyn myfyriwr neu aelod o staff;**
- **Myfyriwr neu aelod staff yn erbyn trydydd parti**

Mae hefyd yn ymwneud â chamymddygiad rhywiol all ddigwydd y tu allan i eiddo neu oriau'r Brifysgol e.e. digwyddiadau cymdeithasol, alldeithiau neu ar y cyfryngau cymdeithasol

2.2 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob achos honedig o dorri'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais rhwng myfyrwyr y Brifysgol neu rhwng aelod o staff a myfyriwr. Nid

yw'n ymdrin ag achosion o aflonyddu nad ydynt o natur rywiol gan fod gan y Brifysgol bolisïau ar wahân mewn perthynas â'r materion hynny. Os cyfyd gwrthdaro rhwng y weithdrefn hon ac unrhyw bolisi neu weithdrefnau eraill y Brifysgol, yna bydd y Cyfarfod Adolygu Cychwynnol (IRM) yn pennu pa weithdrefn fydd yn cael ei defnyddio.

2.3 Os yw'r Parti sy'n Adrodd yn fyfyriwr, aelod o staff neu gontractwr y Brifysgol ac mae'r Parti sy'n Ymateb yn fyfyriwr, bydd y weithdrefn hon yn berthnasol a bydd yr ymchwiliad yn cael ei reoli gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

2.4 Os yw'r Parti sy'n Ymateb yn aelod o staff neu gontractwr y Brifysgol, bydd y Cyfarfod Adolygu Cychwynnol (IRM) yn penderfynu pa bolisi a gweithdrefn fydd yn cael eu dilyn.

2.5 Os penderfynir yn yr IRM na ymdrinnir â'r mater dan y weithdrefn hon yn unol â chymal 2.3, gall y Parti sy'n Adrodd ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw yn unol â'r broses adolygu a amlinellir yn adran 10 isod.

## 3 Ymchwiliadau'r heddlu a gweithdrefnau barnwrol

3.1 Mae'r weithdrefn hon wedi'i dylunio i gefnogi'r Parti sy'n Adrodd i ddatgelu achosion o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais i'r Brifysgol, a chefnogi'r Parti sy'n Adrodd pan maent yn dewis ac yn asesu'r camau gweithredu sydd fwyaf priodol iddynt.

3.2 Lle mae ymchwiliad troseddol neu weithdrefnau barnwrol yn mynd rhagddynt neu'n debygol o ddigwydd yn sgil Datgeliad, gall y Brifysgol dderbyn Adroddiad o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais. Er mwyn peidio â rhwystro'r gweithdrefnau troseddol, ni fydd y Brifysgol yn cychwyn ymchwiliad mewnol neu bydd yn gohirio ymchwiliad sy'n mynd rhagddo. Ym mhob achos bydd y Brifysgol yn ymgymryd â chamau gweithredu rhagofalus angenrheidiol er enghraifft rhoi mesurau ar waith i wahanu'r partïon sy'n adrodd ac yn ymateb.

3.3 Bydd adroddiadau dan y weithdrefn hon o achosion honedig o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais yn cael eu hystyried mewn Cyfarfod Adolygu Cychwynnol (IRM) yn cynnwys sefyllfaoedd lle nad yw'r Parti sy'n Adrodd yn dewis adrodd y mater i'r Heddlu. Gellir galw IRM ar ôl i ymchwiliad troseddol neu weithdrefnau barnwrol ddod i ben lle mae materion dal heb eu datrys ac yn berthnasol i'r myfyriwr neu aelod o staff ynghlwm.

3.4 Nid yw penderfyniad gan yr Heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron (neu asiantaeth gorfodi'r gyfraith arall) i beidio â chymryd camau pellach mewn perthynas â mater troseddol neu ddyfarniad dieuog mewn achos llys yn rhwystro'r Brifysgol rhag parhau i ymchwilio ac os yw'n briodol cymryd camau gweithredu dan y weithdrefn hon ac nid yw'n golygu bod y Parti sy'n Adrodd wedi gwneud adroddiad blinderus neu faleisus.

3.5 Ym mhob achos, bydd y Brifysgol yn cynghori'r Parti sy'n Adrodd nad oes ganddi bwerau ymchwilio cyfreithiol yr Heddlu, ac na all benderfynu ar euogrwydd troseddol. Mae ymchwiliad mewnol yn canolbwyntio'n arbennig ar ba un a oes achos o dorri Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais y Brifysgol (neu Bolisi arall, os felly a bennir yn yr IRM), wedi bod. Ni ellir ystyried y broses fewnol felly fel rhywbeth yn lle ymchwiliad gan yr Heddlu neu erlyniad troseddol.

3.6 Lle mae myfyriwr neu aelod o staff wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd neu'n derbyn rhybudd gan yr Heddlu mewn perthynas ag ymddygiad sy'n disgyn o fewn cwmpas Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais y Brifysgol, bydd yr euogfarn/rhybudd yn cael ei gymryd fel tystiolaeth derfynol bod yr ymddygiad wedi digwydd ac nad oes ymchwiliad pellach yn ofynnol gan y Brifysgol.

## 4 Cymorth

4.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu cymorth i'r aelodau hynny o'i chymunedau yr effeithir arnynt gan y materion hyn. Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cymorth ar gael ac yn cynnig mesurau dros dro fel sy'n briodol i'r Parti sy'n

Adrodd, Parti sy'n Ymateb, a thystion ynghlwm ag achosion honedig o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais.

4.2. Mae adnoddau cymorth ar gael i unrhyw aelod o'r Brifysgol sy'n datgelu digwyddiad, ni waeth os ydynt yn penderfynu gwneud Adroddiad i'r Brifysgol neu'r Heddlu ai peidio. Mae cymorth yn parhau i fod ar gael beth bynnag fo canlyniad ymchwiliad.

4.3 Bydd y Parti sy'n Adrodd a'r Parti sy'n Ymateb, ill dau, yn cael aelod o staff fydd yn cynnig cymorth llesiant a bugeiliol iddynt. Bydd y cymorth hwn ar wahân; ni fydd un o aelod o staff yn darparu cymorth i'r ddau barti. Bydd staff yn y swyddi hyn wedi'u hyfforddi'n benodol i gefnogi'r naill barti yn ystod ac ar ôl ymchwiliad.

4.4 Bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael ei gyfeirio at Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol os yw'n briodol.

4.5 Gellir cyfeirio'r Parti sy'n Adrodd a'r Parti sy'n Ymateb at Wasanaeth Cynghori Undeb y Myfyrwyr, yr Undeb Llafur priodol, neu gangen Cyngor ar Bopeth, lle mae'n briodol, i gael cyngor diduedd a chyfrinachol.

## 5 Diogelu

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl, a gall fod dan rwymedigaeth, i rannu gwybodaeth mewn amgylchiadau lle mae angen diogelu unrhyw unigolyn, neu gymuned ehangach y Brifysgol, rhag niwed neu i atal trosedd rhag digwydd. Bydd unrhyw un sydd wedi gneud datgeliad wyneb yn wyneb yn cael gwybod os mai dyma'r cam y teimlir sydd angen ei gymryd

## 6 Datgeliadau trydydd parti neu dystion

Os yw'r person sy'n datgelu'n drydydd parti sydd heb brofi'r camymddygiad rhywiol, megis unigolyn sydd wedi gweld camymddygiad yn digwydd, neu sydd wedi cael gwybod am gamymddygiad, bydd y Brifysgol yn parchu hawl yr unigolyn sydd wedi profi'r digwyddiad i ddewis sut i fynd â'r datgeliad yn ei flaen. Llunnir adroddiad ar ddatgeliad trydydd parti dim ond os yw'r unigolyn sydd wedi profi'r digwyddiad eisiau cymryd camau fel rhan o'r datgeliad.

Mewn rhai achlysuron, efallai y bydd yn rhaid i'r Brifysgol gymryd camau priodol i atal niwed posibl i unigolion neu'r Brifysgol, yn seiliedig ar asesiad risg, all gynnwys gweithredu ar sail gwybodaeth, neu heb wybodaeth, ynghylch dymuniadau'r unigolyn(ion) sydd wedi profi'r digwyddiad. Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a gweinyddiaeth myfyrwyr (neu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol yn ei absenoldeb) yn gwneud penderfyniad ynghylch llunio adroddiad o ddatgeliad, neu lunio adroddiad ar gyfer ymchwiliad. Bydd y Brifysgol yn cofnodi a oes penderfyniad gan y Parti sy'n Datgelu i dynnu eu datgeliad yn ôl, neu ddatgeliad tyst.

## 7 Monitro

7.1 Bydd y Brifysgol yn cadw cofnod canolog o achosion i ymwneud yn effeithiol â mentrau atal ac ymateb. Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn cadw cofnod o Ddatgeliadau ac Adroddiadau dienw o achosion o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais yn cynnwys myfyrwyr a/neu fyfyrwyr at ddibenion monitro tueddiadau. Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gwasanaethau Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn sicrhau bod tîm Gweithredol yr Is-ganghellor, y Pwyllgor Archwilio ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr, yn derbyn data dienw yn rheolaidd ynghylch yr achosion yr ymdrinnir â hwy dan y weithdrefn hon. Rhaid adrodd unrhyw honiadau o aelod o staff yn ymosod yn gorffol neu rywiol ar fyfyriwr i'r Comisiwn Elusennau a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW). Clerc y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am adrodd, neu Gyfreithiwr y Brifysgol yn eu habsenoldeb, yn unol â Gweithdrefn y Brifysgol ar Adrodd Digwyddiadau

Difrifol

## 8 Gweithdrefn yn dilyn Datgeliad a/neu Adroddiad

8.1. Mae Datgelu ac Adrodd yn weithredoedd ar wahân y gall y Parti sy'n Adrodd ddewis eu cymryd. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd lleihau'r nifer o weithiau mae'n rhaid i'r Parti sy'n Adrodd ddatgelu achos o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais.

8.2 Bydd y broses isod yn dechrau ar ôl i'r Brifysgol dderbyn Datgeliad o achos o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais neu achos o dorri'r polisi. Gellir derbyn y Datgeliad mewn sawl ffordd ac nid oes rhaid i'r Parti sy'n Adrodd wneud y datgeliad o reidrwydd.

8.3. Gall Datgeliad ymwneud â Pharti sy'n Ymateb sy'n aelod o gymuned y Brifysgol neu ddim. Nid yw Datgeliad yn arwain yn awtomatig at Adroddiad yn cael ei wneud i'r Brifysgol dan y Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais. Mae'r Brifysgol yn parchu hawl y Parti sy'n Adrodd i ddewis sut y mae'n dymuno symud Datgeliad ymlaen.

8.4 Yn dilyn Datgeliad, bydd y Parti sy'n Adrodd yn derbyn eu hopsiynau o ran adrodd ynghyd â gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau ar gyfer cymorth arbenigol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y bydd y Parti sy'n Adrodd, o bosib, yn dymuno oedi a myfyrio cyn gwneud eu penderfyniad. Bydd y Parti sy'n Adrodd yn derbyn yr opsiwn a'r cymorth i wneud un neu fwy o'r canlynol:

- adrodd i'r Heddlu;
- adrodd i'r Brifysgol dan Bolisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais y Brifysgol;
- peidio ag adrodd y digwyddiad; a/neu
- dderbyn cyngor ar y cymorth sydd ar gael.

8.5 Bydd staff yn cyfeirio unrhyw un sy'n datgelu eu bod wedi cael eu targedu gan rywun yn cymryd rhan, neu'n ceisio cymryd rhan mewn gweithred rywiol heb gydsyniad y Parti sy'n Adrodd neu gyffwrdd â'r Parti sy'n Adrodd heb eu cydsyniad at y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) fel eu bod yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau a ddarperir. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i'r Parti sy'n Adrodd wneud adroddiad dienw a sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei storio tra maent yn dewis a ydynt eisiau adrodd i'r Heddlu. Bydd staff yn cyfeirio'r Parti sy'n Adrodd at wybodaeth gan y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ynglŷn â gwarchod tystiolaeth. Gall staff wneud atgyfeiriad at y SARC ar ran y Parti sy'n Adrodd gyda'u cytundeb.

8.6 Rhaid i staff sy'n derbyn Datgeliad a all fod yn dor-amod o'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais hysbysu'r Prif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais, y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gwasanaethau Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddu Dynol, y Dirprwy Brif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais yn eu habsenoldeb cyn gynted ag sy'n ymarferol. Dylent geisio cymorth a chyngor a chwblhau'r Ffurflen Cofnodi Datgeliad os yw'n briodol. Os yw'r Parti sy'n Adrodd yn gofyn, gallant hepgor enw'r Parti sy'n Adrodd a/neu'r Parti sy'n Ymateb.

### Adroddiad

8.7 Gall y Parti sy'n Adrodd ddewis gwneud Adroddiad i'r Brifysgol dan Bolisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais y Brifysgol gyda'r bwriad o'r Brifysgol yn cychwyn proses ymchwilio a amlinellir yn y Polisi hwn. I wneud Adroddiad i'r Brifysgol, gall y Parti sy'n Adrodd wneud datganiad ysgrifenedig o'r honiad i'r Prif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais, y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gwasanaethau Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn nodi'r Parti sy'n Ymateb ac unrhyw dystion. Gall opsiynau adrodd eraill fod ar gael a gall y Parti sy'n Adrodd ofyn am yr wybodaeth hon gan yr aelod o staff y bu iddynt ddatgelu'r achos o Gamymddygiad Rhywiol a Thrais iddynt. Ni ellir ymchwilio i Adroddiad os nad yw'r Parti sy'n Adrodd yn dymuno i gynnwys yr honiad gael ei wneud yn hysbys i'r Parti sy'n Ymateb.

8.8. Cyn y cymerir unrhyw gamau gan y Brifysgol, gofynnir i'r Parti sy'n Adrodd fynychu

cyfarfod cychwynnol gyda rheolwr o'r tîm Ansawdd a Rheoleiddio neu aelod o'r tîm Adnoddau Dynol os oes aelod o staff ynghlwm, lle bydd y weithdrefn i'w dilyn yn cael ei hegluro a manylion yr adroddiad yn cael eu cadarnhau. Os nad yw'r Parti sy'n Adrodd yn dymuno i'r Parti sy'n Ymateb wybod am yr honiad yn eu herbyn, yna ni ellir bwrw ymlaen â'r ymchwiliad. Bydd nodyn o'r cyfarfod cychwynnol yn cael ei anfon at y Parti sy'n Adrodd a fydd yn gofyn iddynt gadarnhau p'un a yw'n grynodeb cywir o'r drafodaeth ac yn amlinellu na fydd y Brifysgol yn gallu cymryd camau pellach a/neu weithredu os nad yw'r Parti sy'n Adrodd yn gallu darparu enw'r parti sy'n ymateb a/neu'n fodlon i'r Parti sy'n Ymateb wybod am yr honiad yn eu herbyn. Bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael ei gyfeirio at gymorth priodol.

8.9 Yn dilyn derbyn Adroddiad wedi'i gadarnhau i'r Brifysgol neu'r Heddlu, bydd y Prif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais yn cyfarwyddo'r tîm Ansawdd a Rheoleiddio i drefnu Cyfarfod Adolygu Cychwynnol (IRM) cyn gynted ag sy'n ymarferol.

8.10 Hyd nes y cynhelir yr IRM, dylai'r Prif neu'r Dirprwy Brif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais (LSMVO) gymryd camau o'r fath yn ôl yr angen i:

- ymgymryd ag asesiad risg;
- sicrhau bod y myfyrwyr ynghlwm yn derbyn cymorth academaidd, undeb y myfyrwyr a bugeiliol priodol;
- sicrhau bod yr aelod o staff ynghlwm yn derbyn cymorth staff neu undeb llafur priodol
- diogelu iechyd, diogelwch a llesiant aelodau o gymuned y Brifysgol; a
- sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal fel sy'n briodol.

8.11 Dim ond yn yr IRM y gellir penderfynu cychwyn ymchwiliad ffurfiol yn dilyn Adroddiad os cefnogir/gofynnir am hynny gan y Parti sy'n Adrodd, ac ni ddylai staff na myfyrwyr geisio ymchwilio i'r digwyddiad neu roi gwybod i'r Parti sy'n Ymateb nac unrhyw fyfyriwr arall am yr Adroddiad neu Ddatgeliad.

## 9. Ymateb i Adroddiad a Chyfarfod Adolygu Cychwynnol

9.1 Bydd yr IRM yn cael ei gadeirio gan y Prif neu'r Dirprwy Brif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais (neu eu henwebai yn eu habsenoldeb). Diben IRM yw asesu anghenion cymorth, ystyried sut mae amddiffyn buddiannau pob parti ac aelodau o gymuned y Brifysgol a all fod yn cael eu heffeithio gan yr achos a chytuno ar gamau nesaf a phenderfynu pa bolisi sydd fwyaf addas i'w ddilyn e.e. y Polisi Urddas yn y Gwaith neu'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais.

Ni fydd yr Adroddiad yn cael ei ymchwilio iddo yn yr IRM.

9.2 Bydd aelodaeth o'r IRM yn dibynnu ar natur yr achos honedig a bydd yn cael ei phennu gan y Prif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais (neu eu henwebai). Gall yr aelodaeth gynnwys, fel gofyniad lleiaf:

- Prif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais (neu eu henwebai);
- Dirprwy Brif Swyddog Camymddygiad Rhywiol a Thrais (neu eu henwebai);
- Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (neu eu henwebai);
- Rheolwr Arweiniad a Chyngor Myfyrwyr (diogelu)

9.3 Yn ogystal, gellir galw ar arbenigwyr mewnol ac allanol eraill a bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnwys rhanddeiliaid allanol sy'n chwarae rhan weithredol yn cefnogi'r myfyriwr/wyr neu aelod o staff yr effeithir arnynt neu a all wneud cyfraniad at ddiben yr IRM. Gallai hyn gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, cynrychiolwyr o Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Canolfan Cymorth Trais a Cham-drin Rhywiol neu'r Rheolwr Diogelu yn gweithio i'r Heddlu lleol.

9.4 Wrth benderfynu ar aelodaeth yr IRM, bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gwasanaethau Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn sicrhau bod aelodau'r Brifysgol o'r IRM wedi derbyn hyfforddiant priodol. Bydd cyfansoddiad rhyw'r IRM yn cael ei ystyried.

9.5 Yn ystod yr IRM, bydd aelodau yn:

9.5.1 Ystyried anghenion academaidd, lles a chymorth y Parti sy'n Adrodd a'r Parti sy'n Ymateb ac anghenion unrhyw aelodau eraill o gymuned y Brifysgol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Adroddiad ac adnabod unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol i sicrhau bod yr anghenion hynny yn cael eu bodloni cyn belled ag sy'n bosib;

9.5.2 Ymgymryd ag asesiad risg er mwyn pennu a oes angen rhoi unrhyw fesurau rhagofalus ar waith er mwyn:

- sicrhau y gellir cynnal ymchwiliad llawn a phriodol (naill gan yr heddlu neu'r Brifysgol) a/neu;
- gweithredu mesurau i sicrhau'n rhesymol llesiant a diogelwch y rheiny sy'n gysylltiedig yn ystod unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan yr Heddlu neu'r Brifysgol;
- ystyried y Canllawiau Camymddygiad Rhywiol a Thrais ar gyfer rhoi mesurau rhagofalus ar waith.

## 10 Ymchwilio i adroddiad dan y weithdrefn hon

10.1 Lle mae'r IRM yn argymell y dylid ymchwilio i Adroddiad dan y weithdrefn hon, bydd y broses ganlynol yn berthnasol.

10.2 Bydd Un neu Ddau Ymchwilydd fel sy'n briodol, sydd wedi cael eu hyfforddi i ymchwilio yn cael eu penodi. Bydd yr Ymchwilydd/wyr yn mynd ati i gasglu tystiolaeth ynglŷn ag a oes achos o dorri Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais y Brifysgol wedi bod. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gefnogi gan naill ai'r tîm Ansawdd a Rheoleiddio neu'r tîm Adnoddau Dynol, gellir barnu ei bod yn addas cael cefnogaeth y ddau.

10.3 Yn dilyn penderfyniad gan yr IRM y dylid ymgymryd ag ymchwiliad, dylid ei ddechrau cyn gynted ag sy'n bosibl a bydd fel rheol yn dechrau o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod IRM. Bydd disgwyl i bob parti sydd ynghlwm gynnal lefelau priodol o gyfrinachedd. Hysbysir y Parti sy'n Adrodd a'r Parti sy'n Ymateb na ddylent wneud unrhyw gyswllt â'i gilydd yn ystod yr ymchwiliad oni nodir fel arall gan yr Ymchwilydd/wyr. Bydd canllawiau ynglŷn â lleihau unrhyw gyswllt posib yn cael eu rhoi i'r ddau barti. Bydd mesurau rhagofalus eraill yn cael eu rhoi ar waith fel sy'n briodol.

10.4 Gofynnir ymlaen llaw i'r Parti sy'n Adrodd a'r Parti sy'n Ymateb a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg a chael cyfarfodydd a gohebiaeth yn Gymraeg. Os yw'r naill barti yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, bydd gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfarfodydd a bydd pob gohebiaeth yn ymwneud â'r mater yn Gymraeg.

10.5 Bydd yr Ymchwilydd/wyr yn gweithredu'n brydlon a thactegol, gan gynnal lefelau priodol o gyfrinachedd bob amser. Bydd yr Ymchwilydd/wyr yn cymryd mesurau priodol i ddarparu amgylchedd diogel, cyfforddus a chefnogol ar gyfer trafod yr Adroddiad â'r Parti sy'n Adrodd, y Parti sy'n Ymateb ac unrhyw dystion yn ystod cyfarfodydd ymchwilio. Gall yr Ymchwilydd/wyr ymgynghori â phartïon allanol i geisio cyngor arbenigol yn ôl yr angen wrth gynnal cyfrinachedd.

10.6 Diben cyfarfod ymchwilio yw rhoi cyfle llawn a theg i'r naill barti egluro neu gyflwyno eu fersiwn o'r digwyddiadau. Bydd cyfarfodydd ymchwilio yn cael eu cynnal gyda sensitifrwydd. Bydd yr holl fyfyrwyr a staff sy'n cwrdd â'r Ymchwilydd/wyr yn cael cyfleoedd i fynd am egwylion yn ystod cyfarfod ymchwilio os bydd eu hangen.

10.7 Bydd gan yr holl fyfyrwyr a staff ynghlwm â'r broses ymchwilio'r hawl i fynychu unrhyw gyfarfodydd yng nghwmni aelod o gymuned y Brifysgol am gymorth, megis aelod o staff,

cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr neu gyd-fyfyriwr, aelod o Staff neu gynrychiolydd undeb llafur.

Disgwylir i'r myfyriwr neu'r aelod o staff siarad drostynt eu hunain; nid oes hawl awtomatig i'r cydnabod siarad ar ran y myfyriwr neu'r aelod o staff a'r Brifysgol sydd i benderfynu a ganiateir i'r cydnabod gyfarch y cyfarfod.

10.8 Yr Ymchwilydd/wyr fydd yn penderfynu ar drefn y cyfarfodydd ymchwilio, ond fel rheol cynhelir y cyfarfod cyntaf â'r Parti sy'n Adrodd. Bydd gofyn i'r Parti sy'n Adrodd fynychu cyfarfod ymchwilio â'r Swyddogion Ymchwilio. Gall y Parti sy'n Adrodd fynychu yng nghwmni aelod o gymuned y Brifysgol neu aelod o asiantaeth allanol arbenigol megis y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol neu Argyfwng Trais am gymorth.

10.9 Bydd y Parti sy'n Ymateb yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r weithdrefn a ddilynir, copi o'r adroddiad gwreiddiol a gyflwynwyd, yn amlinellu'r honiadau a wnaed yn eu herbyn ac unrhyw ddogfennau ategol a gyflwynwyd gan y Parti sy'n Adrodd. Bydd gofyn i'r Parti sy'n Ymateb fynychu cyfarfod yng nghwmni eu cynrychiolydd dewisol, os dymunir hynny, gyda'r Ymchwilydd/wyr. Cyn mynychu'r cyfarfod gyda'r Ymchwilydd/wyr, bydd gofyn i'r Parti sy'n Ymateb gyflwyno ymateb ysgrifenedig yn ymateb i'r dogfennau a ddarparwyd o leiaf dau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod ymchwilio arfaethedig. Yn ystod y cyfarfod hwn bydd y weithdrefn yn cael ei hegluro a manylion yr honiad yn eu herbyn yn cael eu cadarnhau. Bydd y Parti sy'n Ymateb yn cael cyfle llawn a theg i egluro neu gyflwyno eu fersiwn o'r digwyddiadau mewn ymateb i'r honiad.

10.10 Gall y Parti sy'n Adrodd a'r Parti sy'n Ymateb adnabod tystion i'r Ymchwilydd/wyr gysylltu â nhw. Bydd gofyn i dystion gadw manylion yr ymchwiliad yn gyfrinachol. Bydd gofyn i dystion (ym mhob achos lle maent yn fodlon) gyflwyno datganiad ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad a gellir gofyn iddynt fynychu cyfarfod ymchwilio yn ôl disgresiwn yr Ymchwilydd/wyr. Bydd datganiadau'r tystion yn cael eu cyflwyno i'r Partïon sy'n Adrodd ac yn Ymateb. Ni roddir unrhyw ddeunyddiau ymchwilio i dystion fel rheol.

10.11 Rhaid i bob myfyriwr a/neu staff ynghlwm â'r broses ymchwilio gyflwyno unrhyw a phob tystiolaeth berthnasol ar adeg yr ymchwiliad. Bydd pob tystiolaeth a gyflwynir yn cael ei rhannu â'r Parti sy'n Adrodd, y Parti sy'n Ymateb a'r ymchwilwyr,

10.12 Ym mhob cyfarfod ymchwilio, bydd nodiadau yn cael eu gwneud a gofynnir i'r cyfwelai gadarnhau ei fod yn grynodeb cywir o'r drafodaeth. Bydd copïau o'r nodiadau, gydag unrhyw sylwadau, yn cael eu cadw gan y cyfwelai a'r Ymchwilydd/wyr; ni fydd y nodiadau hyn yn cael eu rhannu â pharti arall (heblaw am y rheiny a amlinellir yn 8.9). Mae gan fyfyrwyr a staff yr opsiwn i ddewis cael y cyfarfod wedi'i recordio ar gais.

10.13 Gall yr Ymchwilydd/wyr gynnal cyfarfodydd ychwanegol neu ymgynghori â phartïon ychwanegol fel sy'n ofynnol i gaffael gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

10.14 Yn ôl pwysau tebygolrwydd, bydd yr Ymchwilydd/wyr yn penderfynu a yw'r dystiolaeth ar gael yn awgrymu achos o dorri'r polisi. Gall yr Ymchwilydd/wyr ganfod:

10.14.1 Nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi achos o dorri'r polisi; felly, nid oes angen gweithredu ymhellach. Mewn achos o'r fath, bydd yr achos yn cael ei ddiystyru a ni fydd proses ddisgyblu yn cael ei chychwyn, ond bydd cymorth parhaus yn cael ei gynnig i'r ddau barti;

Neu

10.14.2 Fod y dystiolaeth yn awgrymu achos o dorri'r polisi a gwneir argymhelliad y dylid cychwyn proses ddisgyblu. Mewn achos o'r fath, bydd gofyn i'r Ymchwilydd/wyr bennu categori'r achos o dorri'r polisi (gweler adran 9) a dilyn y camau gweithredu pellach priodol dan y Polisi Disgyblu neu bolisi perthnasol arall.

## 11 Categoreiddio Achos Bach neu Fawr o dorri'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais

11.1 Os yw'r Ymchwilydd/wyr yn penderfynu bod camau gweithredu pellach yn ofynnol, bydd gofyn iddynt bennu a yw'r achos o dorri'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais yn un bach neu fawr.

11.2 Bydd natur y camymddygiad a ganfuwyd, y dystiolaeth o'r camymddygiad ac unrhyw gamau lliniaru yn yr achos yn cael eu hystyried wrth benderfynu a fydd yr achos yn cael ei gategoreiddio fel achos bach neu fawr o dorri'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais.

11.3 Ceir rhestrau o'r mathau o ymddygiad y gellir eu hystyried fel achos bach neu fawr o dorri'r polisi isod. Mae'r rhestrau yn esboniadol yn unig ac nid ydynt yn gynhwysfawr. Yn dilyn pob rhestr mae'r camau gweithredu y gellir eu cymryd gan yr Ymchwilydd/wyr os yw'r camymddygiad yn perthyn i'r categori hwnnw.

### 11.4 Achos bach o dorri'r polisi

11.4.1 Gall achos bach o dorri'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais gynnwys:

- cusanu person arall ar y llaw neu foch heb gydsyniad lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oedd elfen o rym neu ymddygiad aflonyddgar arall yn bresennol;
- achos unigol o ddilyn person arall heb reswm da lle nad oes ymddygiad bygythiol neu ymosodol yn bresennol;
- gwneud un sylw o natur rywiol lle nad oedd bwriad amlwg o beri tramgwydd;
- gweithredoedd unwaith o noethni yn cynnwys arddangos organau rhyw mewn modd amhriodol i eraill lle nad yw'r weithred yn canolbwyntio ar unrhyw unigolyn ac nid yw'n torri Polisi Diogelu'r Brifysgol.

11.4.2 Lle mae Ymchwilydd/wyr yn canfod achos bach o dorri'r polisi, bydd yr Ymchwilydd/wyr yn gweithredu fel Swyddog/ion Prifysgol Awdurdodedig yn gwneud argymhellion ar gyfer cosbau priodol mewn adroddiad ac yn cyflwyno'r adroddiad i'r uwch reolwr priodol ei symud ymlaen.

11.4.3 Bydd amgylchiadau a chyd-destun pob achos yn cael eu hystyried wrth bennu a ddylid gosod cosb/au ac os felly, pa gosb/au y dylid eu gosod a, lle bo'n berthnasol, yr amserlen ar gyfer cydymffurfio. Mae'r rhestr ganlynol yn darparu enghreifftiau o gosbau, y gellir eu gosod gan yr uwch reolwr ar gyfer achos bach o dorri'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais. Mae'r rhestr yn esboniadol ac nid yw'n gynhwysfawr:

- Ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol neu fynychu apwyntiad ar gyfer cwnsela.
- Cerydd.
- Gwaharddiad parhaol ar gysylltu â pherson neu bersonau sydd wedi'u henwi (h.y. Gorchymyn Dim Cyswllt).
- Cosb arall resymol o ystyried natur y digwyddiad

11.4.4 Os yw'r Parti sy'n Ymateb yn methu â chydymffurfio â'r cosbau a osodwyd gan yr uwch reolwr o fewn yr amser a nodwyd, gellir ystyried eu bod yn torri amodau'r gosb a gall yr uwch reolwr gyfeirio'r mater at y Dirprwy Is-ganghellor neu gyfeirio'r mater at y weithdrefn ddisgyblu staff

### 11.5 Achos mawr o dorri'r polisi

11.5.1 Gall achosion a'u hystyrir yn rhai mawr o dorri'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais gynnwys:

- cymryd rhan, neu geisio cymryd rhan mewn gweithred rywiol heb gydsyniad;

- cusanu person arall heb gydsyniad lle mae presenoldeb grym wedi'i gadarnhau gan y dystiolaeth;
- cyffwrdd ag unigolyn mewn modd rhywiol heb gydsyniad;
- ymddygiad bygythiol neu ymosodol o natur rywiol;
- patrwm o ymddygiad sy'n rheoli neu'n cymell;
- recordio, rhannu a/neu ddosbarthu lluniau neu recordiadau personol o berson arall heb eu cydsyniad;
- sefyllfaoedd lle mae achosion bach o dorri'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais yn aml neu'n cael eu hailadrodd neu mae'r Person sy'n Ymateb yn methu â chydymffurfio â phenderfyniadau disgyblu neu gosbau; neu
- Euogfarn o drosedd neu rybudd gan yr Heddlu mewn perthynas ag ymddygiad sy'n disgyn o fewn cwmpas Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais y Brifysgol.

11.5.2 Os yw'r Ymchwilydd/wyr yn penderfynu bod camymddygiad y myfyriwr yn achos mawr o dorri'r Polisi Camymddygiad a Thrais, byddant yn cyfeirio'r mater at y Dirprwy Is-ganghellor fel achos mawr honedig o dorri'r polisi.

11.5.3 Os yw'r Ymchwilydd/wyr yn penderfynu bod camymddygiad y staff yn achos mawr o dorri'r Polisi Camymddygiad a Thrais, byddant yn cyflwyno adroddiad i'r uwch reolwr priodol a bydd y mater yn cael sylw dan y weithdrefn ddisgyblu briodol ar gyfer staff.

11.6 Bydd yr Ymchwilydd/wyr yn darparu adroddiad ymchwilio i'r Parti sy'n Adrodd, y Parti sy'n Ymateb yn egluro eu penderfyniad ysgrifenedig, crynhoi eu canfyddiadau ac ystyriaethau a arweiniodd atynt yn cyrraedd eu penderfyniad ac amlinellu unrhyw gosbau, argymhellion neu gamau nesaf sy'n ofynnol.

## 12 Cais am Adolygiad

12.1 Os yw'r Parti sy'n Adrodd a/neu'r Parti sy'n Ymateb yn fyfyriwr ac yn dilyn canlyniad yr ymchwiliad, gall y Parti sy'n Adrodd a/neu'r Parti sy'n Ymateb ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a wnaed gan yr Ymchwilydd/wyr yn ysgrifenedig i'r Dirprwy Is-ganghellor o fewn 10 diwrnod i dderbyn canfyddiadau'r ymchwiliad.

Os yw'r Parti sy'n Adrodd a/neu'r Parti sy'n Ymateb yn aelod o staff, gall yr aelod hwnnw o staff ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a wnaed gan yr Ymchwilydd/wyr yn ysgrifenedig i'r Is-ganghellor o fewn 10 diwrnod i dderbyn canfyddiadau'r ymchwiliad.

12.2 Lle mae IRM yn dod i'r casgliad nad yw'r adroddiad a gafwyd yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer ymchwiliad gan y Brifysgol (adran 2), gall y Parti sy'n Adrodd ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig i'r Dirprwy Is-ganghellor neu'r Is-ganghellor os ydynt yn aelod o staff o fewn 14 diwrnod gwaith i'r penderfyniad hwnnw.

12.3 Gellir gwneud cais am adolygiad ar sail y rhesymau canlynol yn unig a dylid cynnwys tystiolaeth ategol lle bo'n briodol:

- Tystiolaeth na wnaeth yr Ymchwilydd/wr ddilyn y weithdrefn briodol wrth ymchwilio i'r Adroddiad a bod hyn wedi cael effaith wirioneddol ar ganlyniad yr ymchwil, gan ei wneud yn annilys; a/neu
- Wybodaeth newydd sylweddol a pherthnasol nad oedd y Parti sy'n Adrodd neu'r Parti sy'n Ymateb yn gallu ei darparu o'r blaen am reswm da a bod hyn wedi cael effaith wirioneddol ar ganlyniad yr ymchwil, gan ei wneud yn annilys.

12.4 Ni ellir defnyddio'r broses adolygu i herio penderfyniad i gategoreiddio camymddygiad fel achos bach neu fawr o dorri'r Polisi Camymddygiad Rhywiol a Thrais.

12.5 Gall yr Is-ganghellor (i aelodau o staff) a'r Dirprwy Is-ganghellor (i fyfyrwyr), neu eu henwebai, ddewis ymgymryd â'r adolygiad os ydynt yn annibynnol ar yr achos neu byddant yn adnabod uwch swyddog, sy'n annibynnol ar yr achos i ymgymryd â'r adolygiad (Adolygydd). Ni fydd yr Adolygydd yn cynnal ail ymchwiliad i'r adroddiad. Bydd y cais yn cael ei adolygu ar sail y dogfennau a ddarperir gan y myfyriwr neu'r aelod o staff a'r rheiny a gedwir gan yr Ymchwilydd/wyr. Gall yr Adolygydd ofyn am ragor o wybodaeth os oes angen.

12.6 Yn ôl disgresiwn yr Adolygydd, yn ystod y cyfnod Adolygu bydd unrhyw gosbau a bennwyd gan yr Ymchwilydd/wyr yn parhau mewn grym hyd nes y mae penderfyniad yr adolygiad yn penderfynu bod seiliau dros wyrdroi'r rhain.

12.7 Os yw'r Adolygydd yn penderfynu bod yr adolygiad yn cael ei gynnal am neu fwy o resymau, gallant benderfynu naill ai:

- Cyfeirio'r achos yn ôl at yr Ymchwilydd/wyr gwreiddiol i barhau â'r ymchwiliad yng ngoleuni tystiolaeth newydd neu mewn modd sy'n gywir yn weithdrefnol;
- Mynnu ymchwiliad newydd gan Ymchwilydd/wyr newydd

12.8 Os yw'r Adolygydd yn penderfynu yr ymdriniwyd â'r achos yn deg a bod y canlyniad yn rhesymol, bydd y cais am adolygiad yn cael ei ddiystyru.

12.9 Os yw'r ddau barti yn cyflwyno cais am adolygiad, bydd un Adolygydd yn adolygu'r ddau gais.

Mae'r adolygiad wedi'i gyfyngu i ystyried a oes seiliau ar gyfer yr adolygiad ai peidio. Ni fydd yr adolygiad yn ail-ymchwilio i'r adroddiad.

12.10 Ar yr adeg y derbynnir cais am adolygiad, bydd y parti arall yn cael gwybod am yr adolygiad a'r amserlen o ran pryd y gall ddisgwyl clywed y canlyniad.

12.11 Bydd y ddau barti yn cael gwybod am ganlyniad y cais am adolygiad o fewn 28 diwrnod i'w dderbyn. Ym mhob achos, y penderfyniad a gyrhaeddir gan yr adolygiad yw'r un terfynol. Lle mae'r Adolygydd yn penderfynu y dylid cynnal ymchwiliad newydd, ni fydd cais am adolygiad arall ar gael. Mae'r weithdrefn hon yn rhoi un cyfle i'r naill barti wneud cais am adolygiad.